Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Henblas

**Y Caban**
**Ysgol Henblas**
**Llangristiolus**
**Ynys Mon**
**LL62 5DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Henblas

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Henblas |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Erin Ashton-Loudon |
| Person â gofal | Ffion Thomas |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 9 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau o 9yb i 3yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 17/03/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 31/01/2023 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am eu hardal leol

A2 Sicrhau bod plant yn cael mynediad cyson i adnoddau digidol y lleoliad

A3 Sicrhau bod arweinwyr yn monitro arferion arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn drwyadl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn lleisio eu barnau a'u hawgrymiadau'n gyson. Maent yn symud o un ardal neu weithgaredd i'r llall yn hyderus ac yn helpu eu hunain i adnoddau, o unedau storio ac ardaloedd chwarae, yn synhwyrol. Mae'r holl blant yn gwybod y caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried yn dda gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn cael dewis ble i osod eu henwau ar y drws presenoldeb wrth gofrestru ac yn dewis eu diod yn annibynnol.

Mae'r holl blant yn gartrefol yn y lleoliad ac yn ymdopi'n dda pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr wrth y giât allanol. Erbyn iddynt gyrraedd y tu mewn, mae'r plant yn hapus ac yn mynd ati'n syth i chwarae. O ganlyniad, maent yn ymgartrefu'n gyflym iawn yn y lleoliad. Mae perthnasoedd clòs ganddynt â'r ymarferwyr ac maent yn barod i ryngweithio ag ymwelwyr yn dda. Er enghraifft, yn y gornel gartref, maent yn awyddus i gynnig paned a bwydydd dychmygol i'w gilydd. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd iawn â'r trefniadau dyddiol ac mae hyn yn creu sicrwydd i'r plant wrth iddynt ymdopi â newidiadau i amserlen y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasu a rhyngweithio da. Yn y bore, maent yn cyfarch ei gilydd ac yn mynd yn syth i gyd-chwarae'n hapus. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion gan fwynhau derbyn clod wrth i'w cyfoedion ymateb i'w hymdrechion. Er enghraifft, wrth y bwrdd byrbryd, maent yn aros eu tro yn amyneddgar wrth dywallt diodydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cymryd cyfrifoldeb; er enghraifft, maent yn dosbarthu llestri ar gyfer byrbryd yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn arbrofi'n ddiwyd â'r ffynnon ddŵr i lenwi bowlenni yn y gegin fwd yn ogystal â chefnogi ei gilydd yn ddeallus wrth iddynt ddewis a rhannu offer. Mae bron bob plentyn yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddefnyddio offer yn yr ardal allanol. Maent yn datblygu eu medrau corfforol, llythrennedd, creadigol a mathemategol yn dda. Gwneir hyn wrth iddynt baratoi cawl o berlysiau a gwneud marciau pwrpasol ar fyrddau sialc ac ar lawr y buarth. Yn yr ardal fewnol, mae'r holl blant yn mwynhau defnyddio'r ystod o adnoddau sydd ar gael iddynt, fel chwarae rôl trwy wisgo mewn siwt archarwr a dychmygu eu helyntion.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, wrth gyrraedd, maent yn mynd ati i dynnu eu esgidiau a'u cotiau i ffwrdd yn gydwybodol. Yn ogystal, maent yn dangos balchder wrth gyflawni'r dasg o hongian a threfnu eu cotiau a'u bagiau ar eu bachau personol. Yn ystod y dydd, mae plant yn mwynhau'r rhyddid i wisgo eu cotiau a'u hesgidiau wrth iddynt ddewis fynd i chwarae yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau yn dda ac maent yn penderfynu sut i dreulio eu hamser ar dasgau yn synhwyrol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau'n ddygn â'u gweithgareddau ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch a iechyd y plant yn effeithiol. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau dyddiol y lleoliad yn fwriadus. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn canolbwyntio ar anghenion plant unigol, fel y rhai sydd ag alergeddau. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau trylwyr ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn canllawiau hylendid bwyd yn effeithlon ac yn sicrhau gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, maent yn paratoi byrbrydau iach yn gywir gan wisgo'n briodol a golchi eu dwylo yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau. Mae'r ymarferwyr yn gweinyddu meddyginiaeth ac yn cofnodi a llenwi ffurflenni priodol yn gywir. Maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gwybodaeth glir ac effeithiol am ddiogelu plant ar gael ar gyfer ymarferwyr, rhieni ac ymwelwyr.

Mae'r ymarferwyr yn wybodus a chefnogol ac maent yn creu naws ac amgylchedd sydd yn meithrin gofal yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas gynnes â'r plant ac maent yn eu trin â pharch ac urddas. Er enghraifft, maent yn sicrhau preifatrwydd pan fydd plant yn mynychu'r tŷ bach. Maent yn rhyngweithio'n synhwyrol ac yn esbonio a chefnogi'r plant i barchu ei gilydd. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da ac yn annog plant i ddatrys unrhyw wrthdaro trwy drafod â'i gilydd a meddwl am yr effaith ar eraill. Er enghraifft, pan mae mwy nag un plentyn yn dewis yr un adnodd, mae'r ymarferwyr yn ofalgar wrth drafod ac atgoffa'r plant i rannu. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng gadael y plant i chwarae yn annibynnol a bod wrth law i herio gyda chwestiynau pwrpasol i gefnogi iaith unigolion.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod anghenion y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u dymuniadau unigol. Maent yn annog eu hannibyniaeth mewn moddau caredig a sensitif. Er enghraifft, anogir y plant i wisgo esgidiau a ffedogau yn synhwyrol er mwyn adeiladu ar eu medrau unigol ac i feithrin hunan-barch yn ddeallus. Mae gan y lleoliad weithdrefnau a rhwydweithiau cadarn yn eu lle ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cytbwys a difyr ac maent yn cyd-gynllunio'n effeithiol i hybu dysgu'r plant trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol. Maent yn dilyn diddordebau'r plant yn synhwyrol ac yn eu holi'n dda wrth iddynt chwarae ac

arbrofi ym mhob ardal tu fewn a thu allan. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd annibynnol i adeiladu ceir trwy ddefnyddio cratiau ac olwynion ac i gymysgu perlysiau â dŵr yn y gegin allanol. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn darparu ystod dda o gyfnodau pwrpasol i blant chwarae a dysgu’n annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn ymestyn eu dealltwriaeth trwy eu hysgogi i lwyddo wrth chwarae, er enghraifft wrth ganu rhigymau ar y cyd a chofnodi rysáit ar glipfwrdd yn yr ardal gartref. Maent yn cefnogi llafaredd y plant yn llwyddiannus trwy eu hannog i drafod y gweithgareddau wrth iddynt baentio a chymysgu lliwiau i greu enfys ac wrth ddefnyddio clorian i gydbwyso cerrig mân. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn cymell y plant yn dda i ddidoli a rhifo siapiau gwahanol ar begiau, a’u hannog i ddefnyddio arian i brynu nwyddau yn ddeallus yn y siop chwarae rôl.

Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i ddatblygu ystod eang o fedrau ymysg y plant. Mae dulliau addysgu synhwyrol yr ymarferwyr yn cefnogi’r plant i gydweithredu’n bwrpasol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu medrau meddwl da. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i gymharu cyflymder rhediad dŵr wrth ei dywallt i lawr cafnau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau digidol cynnar yn ddigon effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod tasgau er mwyn herio a datblygu medrau’r plant. Maent yn darparu cyfleoedd da i’r plant arbrofi wrth chwarae, er enghraifft trwy greu bwyd Tsieineaidd yn yr ardal gartref â llinynnau lliwgar. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol effeithiol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn gadael i’r plant fesur gwrthrychau gwahanol gyda thâp mesur yn yr ardal adeiladu a phenderfynu ar sut i osod y bwrdd â llestri perthnasol, heb unrhyw ymyrraeth.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus trwy ddringo a llithro ar gyfarpar anturus. Maent yn eu hannog i yrru sgwteri, beiciau a thractorau yn frwdfrydig ac i gamu’n ofalus o amgylch y buarth ar flociau cydbwyso. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel gwneud symudiadau wrth ganu i gerddoriaeth a tharo drymiau a chlychau i ddilyn rhythmau gwahanol. Yn ogystal, maent yn annog y plant i ddefnyddio popty a pheiriant golchi yn yr ardal chwarae rôl, ac yn eu sbarduno i osod llygaid, trwyn a cheg ar wyneb i greu cymeriad dychmygol.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu hanes Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn dda, fel astudio traddodiadau o Tsieina yn ystod y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i blant ddysgu am eu milltir sgwâr yn effeithiol, sy’n llesteirio dealltwriaeth y plant o’u cynefin.

Mae’r ymarferwyr yn cynnal trafodaethau bwriadus â’r plant am eu diddordebau, a’u cyfuno â’u hasesiadau yn gelfydd, i gynllunio camau nesaf priodol yn eu dysgu. Maent yn defnyddio’r arsylwadau’n ac asesiadau’n effeithiol i ddarparu gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau’r plant i’w rhieni a’u gofalwyr. Gwneir hyn trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau llafar rheolaidd. Yn ogystal, mae llyfrynnau

cynnydd y plant yn gofnod da o gyflawniadau'r plant, ac maent ar gael i rieni yn ystod ac ar ddiwedd amser eu plant yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Mae mynediad i'r adeilad trwy ddrws diogel ac mae'r giât allanol ar glo yn ystod oriau agor. Mae prosesau cadarn ar waith ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r lleoliad. Mae'r ardaloedd allanol wedi eu diogelu gan ffens bwrpasol. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r offer tân yn cael archwiliad blynyddol i sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel. Yn ogystal, mae'r arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ar gyfer y lleoliad a'r ardaloedd allanol, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol neu pan fydd unrhyw newid.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sy'n groesawgar a chynnes. Mae'r ardal fewnol yn cynnig digon o le ar gyfer y plant. Mae'r ardaloedd chwarae yn yr ardal allanol yn cynnig heriau a chyfleoedd sy'n addas i blant. Mae'r arweinwyr yn darparu toiledau ac ardal newid clytiau addas, sy'n sicrhau cyfleoedd i barchu preifatrwydd plentyn, tra'n sicrhau annibyniaeth. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amserlen sy'n caniatáu i blant ddefnyddio'r safle cyfan a sicrhau goruchwyliaeth briodol.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol a safonol wedi eu trefnu ar lefel isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i deganau a chyfarpar sy'n eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol. Mae'r plant yn gyfarwydd â'u hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn gyfforddus i ddewis a dychwelyd adnoddau i'r mannau priodol, wrth iddynt 'dwtio' ar ddiwedd sesiwn.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd allanol yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant arbrofi ac i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd i ddefnyddio'r wal ddringo, yn ogystal â meistroli medrau seiclo a rheoli cerbydau. Mae'r teganau ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n dda, ar y cyfan, ac maent o safon uchel. Maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda; fodd bynnag, nid yw'r cyfarpar digidol yn hygyrch yn ystod sesiynau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o adnoddau amrywiol i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol y plant, er enghraifft trwy ddarllen storïau o wahanol ddiwylliannau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn briodol ac maent yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Maent yn rhannu gweledigaeth glir/gadarn, ar y cyfan, gyda rhanddeiliaid. O ganlyniad, mae athroniaeth yr arweinwyr, sef gosod a pharatoi profiadau dysgu heriol, yn creu amgylchedd diddorol sy'n hybu dysgu'r plant yn fwriadus.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Maent yn gosod disgwyliadau synhwyrol ac maent yn cefnogi'r ymarferwyr i gynnal safonau

uchel. Mae'r arweinwyr yn annog cydweithio effeithiol rhwng yr ymarferwyr sy’n cefnogi ethos tîm yn llwyddiannus. Maent yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant pwrpasol i wella’u haddysgu a’u harferion gofal. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo, trwy fabwysiadu awgrymiadau’r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Yn ogystal, mae’r arferion ar gyfer goruchwylio a gwerthuso gwaith yr ymarferwyr, yn gyson a sefydlog. Fodd bynnag, nid yw’r unigolyn cyfrifol yn monitro holl arferion arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad ar rhan y pwyllgor rheoli yn ddigon trwyadl, er enghraifft trwy sicrhau bod y targedau ar gyfer gwelliant yn hylaw ac yn gwbl ymarferol.

Mae’r arweinwyr yn canolbwyntio’n llwyddiannus ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu’r ddarpariaeth ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithlon, sy’n arwain at nifer helaeth o ganfyddiadau ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion i’w gwella yn briodol. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro’n blaenoriaethu meysydd i’w gwella yn ddigon effeithiol.

Mae’r arweinydd yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau pwrpasol â’r holl randdeiliaid, gan gynnwys asiantaethau cefnogi, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar gyngor i ddatblygu’r arferion cynllunio er mwyn dilyn diddordebau’r plant yn well. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth gyfredol am brofiadau a chynnydd y plant i'w rhieni a'u gofalwyr.

Mae’r arweinydd yn sicrhau gofal bugeiliol cadarn ar gyfer y plant, sy’n creu ymdeimlad cynnes o berthyn ymysg y plant a’r oedolion. Mae’r awyrgylch glòs a chynhaliol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Mae’r berthynas gynhyrchiol â’r ysgol leol yn paratoi’r plant tuag at y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Yn ogystal, mae’r arweinydd wedi dechrau ffurfio partneriaethau lleol, sy’n cynnig profiadau diddorol i’r plant. Er enghraifft, mae’r plant wedi dechrau mynychu’r cwt llefrith i brynu nwyddau fel ysgytlaeth.

Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n bwrpasol. Mae hi’n defnyddio’r gyllideb yn effeithiol gan flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn synhwyrol. Er enghraifft, mae’n defnyddio grantiau’n ddeallus, er mwyn cyllido adnoddau amrywiol, fel adnoddau electronig a chyfarpar anturus yn yr ardal allanol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2023